**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 5ED MAWRTH 2018 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Maer y Dref, Y Cynghorydd J Pearson
Y Cynghorwyr Mrs G Baker; B. Barton, D. Bradley, C. Brockley, G. Campbell, H. Fleet; C. Hughes, M.A. Jones, Mrs M Jones; A. Kealey, Mrs H Meredith, M. Pickard, P Richards, K. Swindon, M. Tasker, S Williams, M. Worth.

**SWYDDOG:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorwyr Sir: Cheryl Carlisle, Brian Cossey a Don Milne.

*Agorwyd y cyfarfod trwy gynnal munud o dawelwch er cof am y Cynghorydd John Davies a fu farw ar 17eg Chwefror 2018 yn 69 mlwydd oed.* .

**355/17 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr A Khan, A Mason a T Pearson, a'r Cynghorydd Sir - Mary Doyle.

**356/17 Cyhoeddiadau:**

Cyhoeddodd y Maer ymddiheuriad a gwrthdyniad cyhoeddus am y sylwadau personol a wnaed ganddo ar y cyfryngau cymdeithasol (Facebook) a allai fod wedi achosi dig i swyddogion neu aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y penderfyniad a wnaed yn ddiweddar i newid y drefn o wagio biniau olwynion i bedair wythnos, neu ei fod wedi rhoi'r argraff nad oedd o blaid cynyddu ailgylchu. Datganwyd sylwadau personol, ond roedd wedi sylweddoli ei fod wedi codi'i lais yn amhriodol ac fe ymdrechodd i ddileu unrhyw sylwadau amherthnasol. Cadarnhaodd hefyd ei fod yn bleidiol iawn i'r ymdrechion i gynyddu ailgylchu.

Cadarnhaodd y Maer manylion am y digwyddiadau elusennol sydd ar ddod: Twmpath Dawns i'w gynnal dydd Gwener, 16eg Mawrth yng Nghlwb Pêl-droed Bae Colwyn - tocynnau £12; Sioe Adloniant i'w gynnal yn Theatr Colwyn, dydd Mercher, 9fed Mai. Mwy o fanylion i ddilyn. Gofynnodd y Maer i'r Aelodau cefnogi'r digwyddiadau elusennol hyn.

Fe nodwyd bod rhybudd cyhoeddus o'r safle gwag yn Ward Dinarth i gael eu cyhoeddi yn Rhos yn ddiweddarach yn yr wythnos. Bydd hyn yn rhoi 14 diwrnod i 10 neu fwy o etholwyr galw am isetholiad.

**357/17 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau.

**358/17 Ymwelwyr a'r Cyngor:**

**a)** Croesawyd yr Arolygydd James Keane (Arolygydd Dros dro Gorllewin Conwy), Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, iddo gael cyflwyno adroddiad ar blismona lleol. Fe nodwyd mai'r Arolygydd Kelly Isaacs oedd am fod yn bresennol ond mae newidiadau diweddar wedi golygu ei bod wedi dechrau mewn swydd newydd efo Heddlu Gogledd

Cymru'r wythnos diwethaf. Fe ddisgwylir i'r Arolygydd Julie Sheard cymryd y swydd barhaol ar 4ydd Mehefin.

Dywedodd yr Arolygydd dros dro Keane ei fod wedi cydweithio gyda Kelly am y flwyddyn ddiwethaf a bydd yn dychwelyd i'w swydd gefnogol pan fydd yr Arolygydd Julie Sheard yn dechrau yn ei swydd. Bu'n gweithio yng Ngorllewin Conwy ers 2013 ac, er nad oes ystadegau ar gael ar hyn o bryd, mae'n ymwybodol o'r cynnydd o oddeutu 11% yn y troseddau a gofnodwyd. Mae hyn yn rhannol oherwydd y newidiadau yn y dulliau o gofnodi troseddau, ac, o'i brofiad ei hun o fod yn y fan a'r lle, ni fu unrhyw gynnydd arwyddocaol yn y maes yma, ac eithrio'r nifer o droseddau treisgar. Oherwydd y nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus pwysig sy'n cael eu denu i'r ardal rŵan, fe ganolbwyntiwyd ar gynllunio digwyddiadau yng Ngorllewin Conwy. Mae hyn yn debyg i barhau gyda Diwrnod y Lluoedd Arfog a digwyddiadau eraill a gynlluniwyd ar gyfer eleni. Mae caethwasiaeth cyfoes yn faes sy'n cael sylw arbennig a nifer o adnoddau yn cael eu defnyddio yn erbyn grwpiau sy'n trefnu troseddau o'r fath. Mae rhai o rain yn y carchar erbyn hyn, a mwy o restiadau ac erlyniadau yn debygol. O ran plismona yn y gymdogaeth, mae'r Rhingytll Lee Openshaw wedi cymryd y cyfrifoldeb yn ddiweddar ar gyfer ardal Bae Colwyn a bydd Archwiliadau Amgylcheddol Gweledol (EVA) yn debyg i ailgychwyn yn fuan i gynorthwyo i ymdrin â phryderon am ardaloedd / materion lleol.

Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd sesiwn o holi ag ateb am y canlynol: Profiad aelodau (adeg yr etholiad diwethaf) nad yw trigolion lleol yn adrodd am droseddau lefel isel am eu bod yn teimlo nad yw plismona cymdogol yn gallu ymateb na gweithredu oherwydd eu bod yn gweithio i'w heithaf; Dywedodd yr Arolygydd Keane bod yr holl droseddau a gofnodir yn derbyn statws blaenoriaeth i'w harchwilio maes o law. Mae troseddau trefnedig yn cael mwy o sylw ac am fod hyn yn achosi mwy o ddrwg, weithiau bydd adnoddau yn cael eu symud o blismona cymdogol. Mae EVA yn rhoi cyfle ychwanegol i godi materion lefel isel, e.e. mannau lle mae achosion o aflonyddwch rheolaidd sy'n achosi pryderon am ymddygiad gwrth cymdeithasol ayb; pryderon am y gostyngiad yn y niferoedd ar y timau Plismona Cymdogol lleol o'i gymharu â lefelau 2011 - Mae'r Arolygydd Keane yn gwneud ei orau i rannu'r adnoddau sydd ar gael yn deg; sylwadau Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ddiweddar ar ddefnyddwyr heroin - cafodd lefel uchel o weithrediadau effaith sylweddol (gostyngiad) yn y dosbarthiad o gyffuriau dosbarth A yn yr ardal. Mae'n ymddangos bod y broblem yn un symudol ac mae llawer o waith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd; talwyd teyrnged i ymdrechion ein swyddogion lleol; pryderon am gyflymdra rhai cerbydau ym mharth cyfyngedig 50 m.y.a. ar yr A55 - rhaid cael swyddogion a gafodd hyfforddiant 'ffyrdd cyflym', felly nid yw pob cerbyd yn gallu cyflawni hyn. Mae plismona yn dibynnu ar swyddogion traffig ag arfau a gafodd hyfforddiant 'ffyrdd cyflym' ynghyd a chamerâu a cherbydau i bwrpas i atal troseddu. Y flaenoriaeth yw troseddau trefniadol, am mai hyn sy'n debyg i achosi niwed arwyddocaol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd Keane am ei bresenoldeb a gadawodd y cyfarfod.

**b) Cysylltiad gyda'r Cyngor Sir:**

Croesawyd Cynghorwyr Sir Conwy Cheryl Carlisle, Brian Cossey a Don Milne gan y Cadeirydd a gwahoddwyd hwy i gyflwyno unrhyw adroddiad. Diolchodd y Cynghorydd Milne i'r Cyngor am y gwahoddiad a rhoddodd anerchiad mewn ymateb i'r cwestiynau a gyflwynwyd am benderfyniad y Cyngor Sir i newid i gasgliadau biniau pob pedair wythnos. Dechreuodd trwy egluro targedau'r Llywodraeth a'r Undeb Ewropeaidd i gynyddu ailgylchu a'r pwysigrwydd o wneud hyn ac felly gostwng maint tirlenwi er budd y cenedlaethau sydd i ddod. Cyflwynodd hefyd manylion am y costau cyfredol o dirlenwi yn y Sir (£2.5m y flwyddyn) a chanlyniadau'r prosiect arbrofol ar gyfer holl wasanaethau casglu biniau ar ddydd Llun trwy ardal Conwy am gyfnod o flwyddyn. Canlyniad hyn oedd cynnydd yn y graddfeydd ailgylchu o 14% o'i gymharu â chynnydd o 5% yn y mannau nad oeddynt yn rhan o'r cynllun arbrofol. Bu gostyngiad o 31% ym maint gwastraff y biniau olwynion (20% yn y mannau nad oeddynt yn rhan o'r cynllun arbrofol). Cafwyd rhai achosion gyda'r newid i gasglu pob pedair wythnos ond lle'r oedd angen, aeth swyddogion allan i esbonio i'r trigolion.

Yna manteisiodd ar y cyfle i gywiro deg o gamsyniadau cyffredin a welodd yn y wasg neu ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar fel a ganlyn:
1. Gall trigolion cael unrhyw nifer o focsys ailgylchu ar gyfer gwastraff sydd wedi ei ddidoli.
2. Gellir trefnu i gynorthwyo efo casgliadau i'r rhai gyda phroblemau symudedd.
3. Nid yw unrhyw wastraff ailgylchu a ddidolwyd yn mynd i'r tirlenwi.
4. Mae gwastraff biniau stryd yn cael ei ddidoli ag eitemau i'w hailgylchu yn cael eu tynnu allan.
5. Mae'n bosibl ailgylchu holl ddeunydd plastig ac eithrio bagiau plastig tenau a bocsys caled / brau.
6. Bydd cardbord yn cael ei gasglu os caiff ei osod ar wahân.
7. Mae ailgylchu biniau / bagiau unigol yn achosi llygredd ac yn lleihau gwerth y gwastraff a ail-gychwyd.
8. Gall llygredd olygu bod llwythi yn cael eu gwrthod. Nid yw hyn yn digwydd yng Nghonwy oherwydd didoli ar ymyl palmant.
9. Ni wrthodwyd unrhyw beth a ellir ei ail-gychu yng Nghonwy.
10. Bu cynnydd yn arllwys sbwriel yn anghyfreithlon ar draws yr holl Sir ac nid yn y mannau casglu pob pedair wythnos yn unig. Sbwriel adeiladwyr yn bennaf yw hwn.

Yr honiad bod rhai pobl yn gwrthod ailgylchu yw, yn anffodus, yr unig ddatganiad sy'n gywir. Cyflwynwyd rhai mesurau lliniarol i leihau'r effaith e.e. casglu eitemau mawr unigol am ddim, swyddogion yn galw os oedd problem a biniau ychwanegol lle bo wir angen yn ogystal â chasgliadau ychwanegol lle collwyd casgliad oherwydd gwyliau a.y.b. ymestyn casgliadau clytiau ar wahân i neiniau a theidiau gyda chyfrifoldebau gofal plant, bocsys ailgylchu ychwanegol ar gael ar gais a bocsys ailgylchu yn cael eu hail dylunio i greu mwy o le i blastig a stacio cadarnach.

Cafwyd sesiwn byr o holi ag ateb gyda sylwadau a chwestiynau am broblemau efo cynhwysyddion yn chwythu mewn mannau agored (adrodd i'r swyddogion); cynhwysyddion mawr cymunedol dim yn cael eu hailosod yn y mannau cywir; biniau stacio dim yn addas i'r gwaith (yn cael eu hail dylunio); biniau sbwriel cyhoeddus yn gorlifo (angen adnoddau mewn mannau eraill mewn tywydd garw); problemau yn cael eu datrys yn gyflym unwaith y derbynnir adroddiad; canfyddiad troad u-bedol ar yr addewidion

a wnaed ar adeg yr etholiadau diwethaf (tystiolaeth newydd yn dod i law ar ôl cwblhau'r cynllun arbrofol); pryderon am ddilysrwydd / cywirdeb y data ar arllwys sbwriel yn anghyfreithlon (yn seiliedig ar ystadegau ERF); pryderon am y datganiad y 'gallai' hwn weithio ac am y diffyg addysg am ailgylchu (95% yn hyderus ei fod am weithio).

Diolchwyd i'r Cynghorwyr Sir am fod yn bresennol ac yna gadawsant y cyfarfod.

**359/17 Cofnodion:**

a. ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 22ain Ionawr 2018.***

b. ***Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
***i. Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Polisi a Chyllid ar 22ain Ionawr 2018.***
***ii. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio ar 30ain Ionawr 2018.***
***iii. Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 14eg Chwefror 2018***
***iv. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 20fed Chwefror 2018 (Drafft).***

**360/17 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :**

a) **306/17(a) - Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynghorau Cymuned a Thref:** Derbyniwyd Taflen Newyddion Chwefror 2018 a ddosbarthwyd gan y Panel Adolygu ac fe nodwyd bydd Cynghorwyr J. Pearson ag S. Williams yn mynychu'r gweithdy gydag aelodau'r Panel yfory yng Nghaernarfon

b **Cofnod 337/17 - Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru (CIC):**

Cyflwynodd y Clerc ymateb CIC am ddod i gyfarfod yn y dyfodol.

***Penderfynwyd nodi bydd cynrychiolydd o'r CIC am ddod i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.***

c. ***Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:***

**i.*Cofnod 337/17 - Grantiau*: *Cymeradwyo talu grant ychwanegol am ddigwyddiad (2018/19) a grantiau Ieuenctid 2017/18 fel y manylir yn Atodlen B i'r Cofnodion hynny.***

**ii. *Cofnod 339/17 - Gwobrwyon i Wirfoddolwyr: Cytuno i gyflwyno Grantiau Mawr / Gwobrwyo Gwirfoddolwyr mewn achlysur arbennig yn Neuadd y Dref ar ddydd Llun 16eg Ebrill, i gychwyn am 7pm.***

Cafwyd trafodaeth ar argymhelliad y Pwyllgor i benodi cynrychiolydd o BID Colwyn i gymryd lle cynrychiolydd y Siambr Fasnach oherwydd pryderon bod BID yn gwmni yn rhinwedd ei hun ac nid yn fudiad gwirfoddol / sefydliad ddim er elw.

***Penderfynwyd gohirio penodi cynrychiolydd i gymryd lle'r Siambr Fasnach ac annog pob aelod i gyflwyno dewisiadau eraill i'r Clerc i'w ystyried yn ddiweddarach.***

**ch)** ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

**361/17 Adolygiad o Brif Gynllun Canol Tref Bae Colwyn:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am y gweithdy a gynhaliwyd yn ddiweddar a gynhwysodd cyflwyniad cychwynnol Prif Gynllun 2010 a'r rhesymau dros gynnal adolygiad, gan ddiffinio canol y dref, strategaeth a ffrydiau gwaith. Fe ddynodwyd pump 'ardal i'w gweddnewid' a gofynnwyd i bob bwrdd edrych arnynt yn eu tro a rhoi adborth am eu canfyddiadau a'u hawgrymiadau i Rob Dix.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad.***

**362/17 Rhwydwaith CBS Clercod Conwy a Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned:**

Rhoddwyd adroddiad byr ar lafar gan y Clerc a'r Cynghorydd J. Pearson am gyfarfodydd diweddar y Rhwydwaith a'r Fforwm. Fe nodwyd i Rwydwaith y Clercod trafod Cynlluniau Cynefin, lwfansau aelodau a darparwyr cyflogresi, GDPR ag archwilio allanol. Yng nghyfarfod y Fforwm, trafodwyd paratoi cyllidebau a'r pwysedd ariannol ar y Cyngor Sir a strategaeth Parcio Ceir gyda Chyngor Tref Abergele yn tynnu sylw at y gor-ddweud am yr incwm a ragwelir pe bai codi tâl yn cael ei gyflwyno ((byddai hwn yn seiliedig ar ffi prydles i unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned). Trafodwyd dyfodol y fforwm hefyd a'r mwyafrif o'r farn y dylid ail-gynnal cyfarfodydd chwarterol a newid rhwng lleoliad gwledig ac arfordirol.

***Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'i dderbyn.***

**363/17 Prif Ddigwyddiadau CBS Conwy 2018:**

Cyflwynodd y Clerc neges fer o ddiolch gan Rachel Gil ac yn gofyn i'r Aelodau nodi bydd lletygarwch ar gael yn y digwyddiadau sydd ar ddod. Disgwylir cyhoeddiad ym mis Mai am ddigwyddiad mis Medi.

**364/17 Un Llais Cymru:**

Cyflwynodd y Clerc manylion am ddigwyddiad ymarferiad arloesol sydd i'w gynnal yn Llanfair ym Muallt ar ddydd Iau, 28ain Mawrth. Fe nodwyd bydd sesiynau yn cael eu cynnal ar nifer o destunau, ond roedd y defnydd arloesol o wefannau, cysylltu'r ifanc, adroddiadau blynyddol a chysylltiadau gyda'r gymuned o ddiddordeb / perthnasedd arbennig.

***Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc mynd ac i adrodd yn ôl.***

**365/17 Cyhwfan y Faner dros y Gymanwlad:**

Cyflwynodd y Clerc wybodaeth am Ddiwrnod y Gymanwlad eleni (dydd Llun, 12fed Mawrth) oedd yn awgrymu cynnal gwasanaeth byr a defod o godi baner. Gofynnodd y Clerc a fyddai'r aelodau yn barod i gefnogi digwyddiad bach.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ceisio trefnu digwyddiad byr ar 12fed Mawrth i gynnwys darlleniadau gan y Maer a chodi'r faner am 10am. Dylid gwahodd ysgolion lleol i anfon cynrychiolaeth fechan o ddisgyblion. Fe benderfynwyd ymhellach gofyn i'r Clerc cynnwys y digwyddiad hwn pob blwyddyn yn y dyfodol er mwyn rhoi fwy o rybudd i'r rhai fydd yn cymryd rhan.***

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 p.m. .........................................................Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 5TH MARCH 2018.**

**PRESENT:** The Mayor, Cllr J Pearson
Cllrs: Mrs G Baker; B Barton; D Bradley; C Brockley; G Campbell; H Fleet; C Hughes; M A Jones; Mrs M Jones; A Kealey; H Meredith; M Pickard;
P Richards; K Swindon; M Tasker; S Williams; M Worth

**OFFICER:** Mrs C Earley, Town Clerk

**IN ATTENDANCE:** County Cllrs: Cheryl Carlisle, Brian Cossey and Don Milne

*The meeting commenced with a minute's silence in memory of Cllr John Davies, who sadly passed away on 17th February 2018, aged 69 years.*

**301/17 Apologies for Absence**:

The Chairman welcomed everyone to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: A Khan; A Mason and T Pearson and County Cllr Mary Doyle.

**302/17 Announcements:**

The Mayor made a public retraction and apology for personal comments made using social media (Facebook) that made have caused offence to officers or members of Conwy County Borough Council, in relation to their recent decision to move to four weekly wheelie bin collections, or given the impression that he was not in favour of increased recycling. Personal views were expressed, but he realised that he had spoken out of line and made immediate efforts to delete any inappropriate comments. He also confirmed that he is very much in favour of efforts to increase recycling.

The Mayor confirmed the details of his upcoming charity events: Barn Dance to be held on Friday March 16th at Colwyn Bay Football Club; tickets £12 and a Variety Show to be held in Theatr Colwyn on Wednesday 9th May. More details to follow. The Mayor requested that the members support both of these charity events.

It was noted that public notices for the vacancy in Dinarth Ward will go up in Rhos later this week. This will give 14 days for 10 or more electors to call for a by-election.

**303/17 Declarations of Interest**:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**304/17 Visitors to the Council:**

**a)** The Chairman welcomed Inspector James Keene (Acting Insp for West Conwy) NW Police, to give a report to the Council. It was noted that Inspector

Kelly Isaacs had been scheduled to attend, but that recent changes had resulted in her commencing a new role with NW Police last week. Insp. Julie Sheard is expected to take up permanent post on 4th June.

Acting Insp Keane informed members that he had been working alongside Kelly for the past 12 months and he will revert to his supporting post when Insp Julie Sheard takes up her post. He has worked in West Conwy since 2013 and, although the year end statistics are not yet available, is aware that there has been increase of approximately 11% in recorded crime. This is at least party attributable to recent changes in the way crimes are recorded and his own experience on the ground has not highlighted any sharp increase in this area, with the exception of numbers of violent crimes. There has been a focus on event planning in West Conwy, due to the number of high profile public events now being attracted to the area. This is expected to continue with the Armed Forces Day and other planned events this year. Modern day slavery is also a key focus area, with significant resources being used to target organised crime groups. Some of those responsible are now in jail, with more arrests and prosecutions likely. On the neighbourhood policing level, Sgt Lee Openshaw has recently taken over responsibility for the Colwyn Bay area and Environmental Visual Audits (EVAs) are likely to recommence shortly, to help address and local areas/issues of concern.

A question and answer session followed the presentation, with questions or concerns expressed about the following matters: members being told on the doorstop (last elections) that residents do not report low level crime, as they feel the neighbourhood police are too stretched to respond or take any action; Insp James Keane responded that all crimes that are reported are allocated a priority status and would be followed up in due course. Organised crime has a higher focus and can sometimes take resources away from neighbourhood policing, as it can cause more harm. The EVAs give an additional opportunity for low level issues to be raised, e.g. hotspots for anti-social behaviour etc; concerns about the reduction in numbers of local neighbourhood policing teams, compared to 2010 levels – Insp Keane does his best to fairly share the resources available; views on the Police & Crime Commissioner's recent comments about heroin users – large scale operations have seen a significant impact (reduction) in the supply of class A drugs in the area. The problem does seem to move around and this is very much work in progress; tribute was paid to the efforts of our local officers; concern about the speed of some lorries in the restricted 50mph zone of the A55 – officers have to be 'fast road' trained, so not all vehicles are able to enforce this. Policing relies on traffic and firearms officers, who are fast road trained, together with cameras and dedicated crime vehicles. His priority is organised crime, as this has the potential to cause significant harm.

The Chairman then thanked Insp Keane for attending and he retired from the meeting.

b) **County Councillor Liaison:**

The Chairman welcomed County Councillors Cheryl Carlisle, Brian Cossey and Don Milne and invited them to give any report. Cllr Don Milne thanked the Council for the invitation to attend and gave a presentation to members in response to questions submitted about the County Council's

decision to move to four weekly bin collections. He began by explain the Government and EU's targets for increasing recycling and the importance of doing this and consequently reducing landfill, for the benefit of future generations. He also gave details of the current cost of landfill in the County (£2.5m per annum) and the results of the pilot project run across all Monday bin collections in the Conwy area for a 12 month period. This had resulted in an increase in recycling rates of 14%, compared to 5% increase in non-pilot areas, and a reduction of 31% in wheelie bin refuse (20% in non-pilot areas). There had been few issues with the move to four weekly collections and officers had been sent out to educate residents, where necessary.

He then took the opportunity to put right ten common misconceptions that he had seen reported in the press or social media recently, as follows:

1. Residents can have any number of recycling containers for sorted waste.
2. Assisted collections are available for those with mobility problems.
3. None of the separated recycled waste goes to landfill.
4. Street bin waste is sorted and recyclables extracted.
5. All plastics apart from thin plastic bags and hard/brittle containers can be recycled.
6. Cardboard will be collected if left separately.
7. Single bin/bag recycling causes contamination and reduces the value of recycled waste.
8. Contamination can result in loads being rejected. This does not happen in Conwy due to kerbside sorting.
9. No recyclables have been rejected in Conwy.
10. Fly tipping has increased across the whole county and not just in four weekly areas. This is mainly builders' rubbish.

The claim that some people refuse to recycle is, unfortunately, the only statement that is true. Some mitigation measures are being introduced to lessen the impact, e.g. free single collections of larger items, visits by officers where problems are being experienced and additional bins where there is a proven need, plus additional collections where one has been missed due to holidays etc., separate nappy collections are to be extended to grandparents with childcare responsibilities, extra recycling containers are available on request and recycling boxes are being redesigned with larger plastic sections and sturdier stacking.

A brief question and answer session followed, with comments and questions about: problems with containers being blown away in more exposed areas (report to officers); larger communal bins not being returned to their designated spot; stacking bins not fit for purpose (being redesigned); public litter bins overflowing (due to resources needed elsewhere in bad weather); problems quickly being sorted once reported; a perceived u-turn on pledges made at the last elections (due to new evidence coming to light following completion of pilot); concerns about the validity/accuracy of fly tipping data (based on stats from ERF); concerns regarding a statement this 'could' work and about the lack of education regarding recycling (95% confident it will work).

The County Councillors were then thanked for attending and they retired from the meeting.

**305/17** **<u>Minutes</u>**:

a) ***Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting of the Council, held on 22nd January 2018.***

b) ***Resolved to <u>receive</u> a copy of the minutes of the following meetings:***
   i) ***A Special Meeting of the Policy & Finance Committee held on 22nd January 2018 .***
   ii) ***The General Purpose & Planning Committee held on 30th January 2018.***
   iii) ***The Policy and Finance Committee held on 14th February 2018.***
   iv) ***The General Purposes & Planning Committee held on 20th February 2018. (Draft)***

**306/17** **<u>Matters Arising from Those Minutes</u>:**

a) **Min. 306/17(a) – Welsh Government Review of Town and Community Councils:** The February 2018 Newsletter issued by the Review Panel was received and it was noted that Cllrs J Pearson and S Williams would be attending a workshop with Panel members tomorrow in Caernarfon.

b) **Min. 337/17 – NW Community Health Council:**

   The Clerk submitted a response from the CHC about attending a future meeting.

   ***Resolved to note that a representative from the CHC will be attending a future meeting of the Council.***

c) ***Resolved to <u>endorse the recommendations</u> of the Committees, as detailed in the following Minutes:***

   i) ***Min. 337/17 – Grants: To approve the payment of an additional events grant (2018'19) and youth grants for 2017'18 as detailed in Schedule B to those minutes.***

   ii) ***Min. 339/17 – Volunteer Awards: To agree that the Large Grants/Volunteer Awards be presented at a special ceremony in the Town Hall on Monday 16th April commencing at 7pm.***

   A discussion took place regarding the recommendation of the Committee to appoint a representative from Colwyn BID to replace the Chamber of Trade representative, due to concerns that the BID is a company in its own right and not a voluntary/nor for profit organisation.

   ***Resolved to defer appointing a representative to replace the Chamber of Trade and to encourage all members to submit any alternative suggestions to the Clerk, for consideration at a later date.***

d) ***Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.***

307/17 **Colwyn Bay Town Centre Masterplan Review:**

The Clerk gave a brief verbal report on the recent workshop, which had included an introductory presentation on the 2010 Masterplan and reasons for the review, defining the town centre, strategy and work streams. Five potential 'transformation areas' had been identified and each table was asked to look at these in turn and to feed in any thoughts or suggestions on the proposals put forward by Rob Dix.

***Resolved to receive and note the report.***

308/17 **Conwy CBC Clerks Network and Community and Town Council Forum:**

The Clerk and Cllr J Pearson gave a brief verbal report on the recent meetings of the Network and Forum. It was noted that the Clerks' network meeting had discussed Place Plans, members allowances and payroll providers, GDPR and external audit. The Forum meeting had agenda items covering budget preparation and the financial pressures the County Council was under and the Car Park strategy, with representations from Abergele Town Council about the overstating of projected income should charging be introduced (upon which a lease fee for any Town or Community Council would be based). It had also discussed the future of the Forum, with consensus that meetings should resume quarterly and alternate between a rural and coastal venue.

***Resolved to receive and note the report.***

309/17 **CCBC Major Events 2018:**

The Clerk submitted a brief message of thanks form Rachel Gill and asked members to note that hospitality will be available at upcoming events. An announcement is expected in May re: September event.

310/17 **One Voice Wales:**

The Clerk submitted details of an innovative practice event, being held in Builth Wells on Thursday 28th March. It was noted that sessions were being held on a number of topics, but that innovative use of websites, youth engagement, annual reporting and community engagement were of particular interest/relevance.

***Resolved to authorise the Clerk to attend and report back.***

311/17 **Fly a Flag for Commonwealth:**

The Clerk submitted information about this year's Commonwealth Day (Monday 12th March) to include a suggested format for a brief service and flag raising ceremony. The Clerk asked members if they would be supportive of a small scale event.

***Resolved to request that the Clerk seeks to arrange a brief event for 12th March, to include readings by the Mayor and flag raising at 10am. Local schools would be invited to send along small delegations of pupils. Further resolved to request that the Clerk diarises this event for future years, so that more notice could be given to prospective participants.***

The meeting closed at 8:30 p.m. ……………..……. Chairman